

Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes

Canllawiau Moeseg Ymchwil a Datganiadau Polisi

Mae'r Brifysgol yn cefnogi naw egwyddor allweddol sy'n ymwneud ag ymchwil foesebol ac mae'n disgwyl i'w holl ymchwilwyr gadw at yr egwyddorion hynny.

1. Dylai pob ymchwil sy'n cynnwys pobl gadw at y canllawiau sydd yn Natganiad Helsinki. <https://www.wma.net/policies-post/wma-declaration-of-helsinki-ethical-principles-for-medical-research-involving-human-subjects/>
2. Rhaid cynllunio, adolygu a chyflawni ymchwil er sicrhau dilysrwydd ac ansawdd fel y nodir yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar gyfer Sicrhau Dilysrwydd Academaidd a Sicrhau Ansawdd mewn Ymchwil. https://www.bangor.ac.uk/research-innovation-and-impact-office/research_integrityðics.php.en (o dan y Codau Ymarfer)
3. Rhaid rhoi gwybodaeth lawn i bawb sy'n cymryd rhan am ddiben a dulliau'r ymchwil a'r defnydd posibl a wneir ohoni, a pha risgiau sydd iddi (os oes rhai).
4. Mae'n rhaid parchu cyfrinachedd y deunyddiau a'r wybodaeth a gewch chi gan y rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil a chadw'r ymatebwyr yn ddiennw.
5. Gwirfoddolwyr fydd yn cymryd rhan mewn ymchwil fel rheol.
6. Mae'n rhaid sicrhau cyn lleied o risg â phosib i'r bobl sy'n cymryd rhan mewn ymchwil.
7. Mae'n rhaid i annibyniaeth yr ymchwil fod yn amlwg, ac mae'n rhaid amlygu unrhyw wrthdaro buddiannau.
8. Mae'n rhaid i bob ymchwil ar anifeiliaid gadw at egwyddorion Adnewyddu, Lleihau a Mireinio.
9. Cymeradwyir ymchwil y mae iddi oblygiadau moesegol trwy adolygiad annibynnol gan gymheiriaid.

Hyfforddiant

Lle bo angen, bydd hyfforddiant ar gael i ymchwilwyr unigol ac aelodau'r Pwyllgor Moeseg.

Cyswllt: Gwenan Hine, Uwch Gofrestrydd Cynorthwyol, Swyddfa'r Cofrestrydd, Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd LL57 2DG; ffôn: (01248) 38 2413; gwenan.hine@bangor.ac.uk

Adolygiad Moesegol

Mae Pwyllgor Moeseg y Brifysgol wedi datganoli cyfrifoldeb dros adolygu moesegol a'r brosesgymeradwyo i Bwyllgor Moeseg y Colegau.

Rhaglenni Graddau Ymchwil Prifysgol Bangor

Mae pob Pennaeth Ysgol/Grŵp Ymchwil yn gyfrifol am sicrhau bod yr ymchwil y bydd myfyrwyr ymchwil yn ei wneud yn eu hunedau yn cael ei chyflawni i safon uchel ac yn cydymffurfio â'r ymarfer gorau. Dylai'r myfyrwyr hynny sy'n cofrestru ar raglenni gradd

ymchwil ymgyfarwyddo â'r hyn a ystyrir yn ymarfer da yn eu disgyblaeth a chynnal eu hymchwil yn unol â hynny.

Datganiadau Polisi

1. Y Prif Ystyriaethau

Y brif ystyriaeth mewn unrhyw ymchwil y mae pobl yn cymryd rhan ynddi yw caniatâd, urddas, hawliau, diogelwch a lles y rhai sy'n cymryd rhan. Mae gan ymchwilwyr gyfrifoldeb i ofalu am yr unigolion sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil ac maent yn atebol am eu lles. Os daw Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil ar draws unrhyw bryderon moesegol neilltuoel, gall gyfeirio'r mater at Gadeirydd Pwyllgor Moeseg y Brifysgol.

Ceisied:

- Lleihau nifer y bobl sydd eu hangen i gymryd rhan ar sail ymarfer da ystadegol
- Lleihau'r holl risgiau posibl i les y rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil
- Hyrwyddo i'r eithaf ansawdd ac effaith yr ymchwil a pherthnasedd yr ymchwil.

2. Y Gofynion Cyfreithiol

Mae'n rhaid i'r ymchwil gadw at yr holl ofynion cyfreithiol a chanllawiau'r cyrff proffesiynol priodol. Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn datgan bod angen cadw pob gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion a geir trwy waith ymchwil yn hollol gyfrinachol a diogel am y cyfnod o amser a bennir yn y ddeddfwriaeth, neu yng nghanllawiau naill ai'r cyrff cyllido neu'r cyrff proffesiynol, pa un bynnag yw'r mwyaf llym. Ni ddylai data ymchwil gael eu cyflwyno mewn ffordd a allai ddatgelu pwy yw rhywun, oni bai bod yr unigolion wedi cael gwybod am hynny ymlaen llaw a'u bod wedi cydsynio'n bendant i hynny.

3. Cydsyniad

Mae'n rhaid cael cydsyniad dilys a gwybodus gan bawb sy'n cymryd rhan mewn ymchwil, ac eithrio ymchwil sy'n ymwneud â chanfod twyll. Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan fod yn ymwybodol o'r risgiau a'r manteision posib sydd i gymryd rhan, os oes rhai. Mae'n rhaid iddynt ddeall hefyd eu bod yn cymryd rhan yn gwbl wirfoddol ac y cânt dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Dylid defnyddio unrhyw ddata ac/neu ddeunyddiau a gesglir i'r diben sydd wedi ei gytuno, a rhaid i'r ymchwilwyr sylweddoli bod angen cydsyniad y cyfranogwyr drachefn os dymunant eu defnyddio i unrhyw ddiben arall.

Mae ffurflen gydsynio gymeradwy ar gael i'w lawrlwytho o wefan Moeseg CCDB.

4. Plant dan oed ac Oedolion Bregus

Dylid cymryd gofal mawr gydag ymchwil sy'n ymwneud â phlant dan oed ac oedolion hawdd eu niweidio, e.e. rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu. Mae'n rhaid i'r ymchwilwyr eu bodloni eu hunain bod gwir angen cynnwys y grwpiau hynny yn yr ymchwil a dylent fedru cyfiawnhau hynny i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil. Mae'n rhaid i'r ymchwilwyr gofio bod nifer o faterion sy'n ymwneud â chydsyniad penodol yn ymwneud ag ymchwil i blant dan oed ac oedolion hawdd eu niweidio a dylid llunio cyfarwyddiadau clir a gofalus. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n rhoi'r cydsyniad yn cael eu cynnwys yn yr holl gamau, yn arbennig os bydd problemau'n codi yn ystod yr ymchwil. Efallai y cewch gyngor ynghylch y materion hynny gan y cymdeithasau a'r grwpiau cefnogi perthnasol. Mae'n rhaid i'r ymchwilwyr (gyda chyfarwyddyd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil) gydymffurfio hefyd â'r rhwymedigaethau cyfreithiol cyn bwrw ymlaen â'r ymchwil (megis cael eu clirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) cyn dechrau ar ymchwil sy'n ymwneud â phlant). Mae'n rhaid egluro'n glir rôl a chyfrifoldebau'r

unigolion y mae'r sawl sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn ddibynnol arnynt (e.e. rhieni, gofalwyr a chefnogwyr).

5. Ymchwil y tu allan i'r Deyrnas Unedig

Mae lefel ychwanegol o gyfrifoldeb ac archwilio yn gysylltiedig ag unrhyw ymchwil a wneir y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu sy'n cynnwys partneriaid sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a dylai'r ymchwilwyr roi ystyriaeth lawn i holl ofynion cyfreithiol a phroffesiynol. Dylai'r ymchwilwyr gofio bod gwahaniaethau rhwng sefyllfa sifil, gyfreithiol ac ariannol ymchwilwyr ac academyddion cartref a thramor. Os caiff yr holl ymchwil ei chynnal dramor dylai'r ymchwilwyr ymgynefino â gofynion cyfreithiol y wlad dan sylw.